# Mewnwelediad a Deallusrwydd Chwefror 2026

Yn ystod mis Chwefror 2026, ymwelodd tîm Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd â **14** o leoliadau ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen a siaradodd â chyfanswm o **178** pobl (**117** Benyw a **61** Gwryw). Cafodd y tîm gyfle i ryngweithio â thrigolion mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys lleoliadau a grwpiau cymunedol, sgyrsiau gwybodaeth, a chyfadeiladau llety gwarchod.

## Beth wnaethon ni ei glywed y mis hwn?

- Mae preswylwyr yn parhau i ofyn am well mynediad at ofal deintyddol, yn enwedig argaeledd deintyddion y GIG sy'n derbyn cleifion newydd. Mae'r tîm wedi cyfeirio llawer o bobl i'r llinell gymorth ddeintyddol.
- Roedd ymwelwyr yn adrodd am amseroedd aros hir yn Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor, er bod llawer yn pwysleisio bod staff yn darparu gofal rhagorol ar ôl iddynt gael eu gweld.
- Mae pobl wedi dweud wrthym dro ar ôl tro eu bod yn cael trafferth sicrhau apwyntiadau meddygon teulu ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, llawer ohonynt yn ceisio am sawl diwrnod.
- Ymwybyddiaeth dda o sgrinio canser y coluddyn a diddordeb yn y samplau o becynnau sgrinio sy'n cael eu harddangos mewn sesiynau ymgysylltu â'r gymuned.
- Derbyniwyd ymholiadau am restrau aros, gan fynegi pryder ynghylch pa mor hir y maent yn debygol o aros arnynt a'r ansicrwydd y mae hyn yn ei greu ar gyfer eu triniaeth a'u lles cyffredinol.
- Rydym yn parhau i dderbyn adborth cymysg am y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin; Mae'r rhai sydd wedi ei ddefnyddio yn aml yn ei ddisgrifio fel rhagorol, tra bod eraill yn dweud wrthym nad ydyn nhw'n ymwybodol o beth yw'r gwasanaeth neu sut mae'n gweithio
- Rhannwyd rhwystredigaethau ynglŷn â'r amser teithio i Ysbyty Athrofaol y Faenor - ei fod yn rhy hir i'r rheiny sy'n byw ym mwrdeistref Caerffili a Sir Fynwy
- Canmoliaeth i'r Ganolfan Frechu yng nghanol tref Cwmbrân





## Beth nesaf?

Dros y misoedd nesaf, bydd y tîm yn parhau i rannu gwybodaeth am bynciau amrywiol gan gynnwys:

- Sut y gall trigolion Gwent gael mynediad at **Wasanaethau Sgrinio Canser** a **Chymorth Iechyd Menywod ar gyfer gwasanaethau iechyd mislif, atal cenhedlu a menopos**
- Hyrwyddo Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl gan gynnwys **111 Opsiwn 2** a **Melo**
- **Ymwybyddiaeth Sepsis**

Mae'r holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a'i adolygu i nodi themâu a thueddiadau allweddol. Rydym yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i glywed gyda'r timau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny a chyda uwch arweinwyr. Mae'r mewnwelediadau yn helpu i siapio gwelliannau i wasanaethau, penderfyniadau cynllunio a pholisïau. Rydym hefyd yn anelu at gau'r ddolen trwy rannu diweddariadau gyda chymunedau fel y gall pobl weld sut mae eu hadborth wedi helpu i ddylanwadu ar newid. I gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r gymuned, ewch i'n gwefan: **https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-cymunedol/**